# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 6, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 18 HYDREF 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cadeirydd P Downing (Is-gadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|
| C E Lloyd | M Thomas |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Debbie Smith | Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth |
| Pamela Milford | Uwch-gyfreithiwr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J Newbury, R C Stewart a/ac D G Sullivan
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

26 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn gweithio i'r cyngor ac yn cyfrannu i'r Gronfa Bensiwn.

**NODWYD** bod y Cynghorydd P Downing wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad a phleidleisio ar unrhyw eitem sy'n ymwneud â chyflogaeth staff cyffredinol, ar faterion y gyllideb ac unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar y Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol, ar wahân i faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei frawd gyda chyfeiriad penodol at ei swydd.

Y Cynghorydd C E Lloyd - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy nhad yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd M Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - rwyf fi a fy ngwraig yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**NODWYD** bod y Cynghorydd M Thomas wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad ond i beidio â phleidleisio ar unrhyw eitem sy'n ymwneud â chyflogaeth staff cyffredinol, ar faterion y gyllideb ac unrhyw faterion eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei wraig gyda chyfeiriad penodol at ei swydd.

27 **CRONFA FUDDSODDI CYMRU: MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH.**

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad i gymeradwyo Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng 8 awdurdod lleol Cronfa Bensiwn Cymru.

Roedd cynnig Cronfa Buddsoddi Cymru'n cynnwys creu Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd a oedd yn cynnwys aelodau etholedig o bob awdurdod gweinyddu, a gefnogir gan Weithgor o Swyddogion. Cynigiwyd hefyd benodi Gweithredwr a reolir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i ddarparu'r strwythur angenrheidiol ar gyfer creu offeryn ar gyfer y gronfa a'i rheoli ar ran yr 8 cronfa.

Roedd y gwaith yn mynd rhagddo mewn terfynau amser tynn i lunio trefniadau llywodraethu ar gyfer y gronfa gan gynnwys drafftio Cytundeb Rhwng Awdurdodau sy'n gyfreithiol rwymol (gan gynnwys Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cydbwyllgor), manyleb y gwasanaethau i'w darparu i'r Gweithredwr a rôl y Gweithgor o Swyddogion. Rhoddir ystyriaeth hefyd i anghenion y gronfa ar gyfer cyngor cyfreithiol a buddsoddi arbenigol.

Rhagwelir y bydd y Cyd-bwyllgor yn cwrdd fel bwrdd cysgodol (h.y. heb bwerau gwneud penderfyniadau) fel Grŵp Cyd-gadeiryddion (JCG) yn ystod gweddill 2016 a byddai'n cael ei greu'n ffurfiol ddechrau 2017. Cafodd cylch gwaith y JCG ei nodi yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth arfaethedig a ddarparwyd yn Atodiad 1. Byddai'r JCG yn goruchwylio'r broses gaffael ar gyfer y Gweithredwr ond byddai'r Cyd-bwyllgor ffurfiol yn gwneud yr argymhelliad terfynol i benodi cynigydd sy'n bodloni meini prawf y fanyleb orau.

Cynigiwyd hefyd bod y JCG a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu'n cynnwys un cynrychiolydd o bob un o wyth Cronfa Bensiwn Cymru. Cynigiwyd y dylai cynrychiolydd o Ddinas a Sir Abertawe gael ei benodi.

Roedd Atodiad 2 yn darparu'r rhestr o gyfarfodydd ar gyfer Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a drefnwyd i gyd-fynd â chynllun prosiect y gronfa.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i Brif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol, a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD**: -

1) Y dylid nodi cynnydd yn natblygiad cronfa buddsoddi Cymru;
2) Cymeradwyo’r Memorandwm o Ddealltwriaeth drafft;
3) Dirprwyo awdurdod i Swyddog Adran 151/Pennaeth Gweithredol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Memorandwm o Ddealltwriaeth mewn ymgynghoriad â'r cadeirydd;
4) Penodi'r Cynghorydd P Downing i gynrychioli'r pwyllgor ar Gyd-bwyllgor y Cadeiryddion a'r Cyd-bwyllgor ar ôl hynny.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.15 am

**CADEIRYDD**